# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil
## Cyfarfod Nos Fawrth, Mawrth 14eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc.

Presennol: Euros Puw (cadeirydd), Arwel Davies, Geraint Jones, Jean Roberts, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Huw Charles.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Ionawr 17eg 2023) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **- Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau cynllunio a cheisiadau ariannol.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Sedd wag ar y Cyngor.
**Derbyniwyd llythyr gan Catrin Roberts yn datgan diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol fel cynghorydd.**

b) Cynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethol Cysgod y Foel.
**Cytunwyd i'w drafod eto ym mis Mai.**

c) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

## iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cau'r Ffordd Llanycil ger Tŷ Capel ar y 21/03/23 er mwyn i BT gwblhau gwaith.

b) Heddlu Gogledd Cymru.
i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala

c) Llywodraeth Cymru.
i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

ch) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Sefyllfa parcio ar safloedd y Parc ar Flaendraeth Llyn Tegid a Maes Parcio, Llangywer.

d) Plaid Cymru.
i) Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

## v) Ceisiadau Cynllunio

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau canlynol:-**
a) NP5/72/24A – Dymchwel annedd is-safonol presennol ac adeiladu annedd newydd. Garth Nodol, Llidiardau.
b) NP5/72/241A – Adeiladu estyniad unllawr. 1 Maes Gwyn, Rhyduchaf. (**Arwel Davies yn datgan diddordeb).**

**vi) Materion Ariannol**
a) Penodi Archwiliwr Mewnol.
**Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.**

b) The Pension Regulator.
**Cytunwyd i ailgofrestru.**

c) Adroddiad Ariannol i ddiwedd Chwefror (monitro derbyniadau a thaliadau) – **Cymeradwywyd.**

ch) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
**Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE), Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth), Neuadd Maesywaen (Llogi), Neuadd Parc (Llogi), Neuadd Mynach (Llogi), Tanysgrifiad Zoom (1/2**

**y gost gyda Chyngor Llanycil), Gliniadur newydd a meddalwedd (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil).**
**Cadarnhaodd y clerc fod y gliniadur yn cael ei gynnwys o dan y polisi yswiriant cyfredol.**

<u>d) Ceisiadau ariannol.</u>
C**ytunwyd i gyfrannau:-**

| | |
|---|---|
| **1) Neuadd Y Parc** | **£150 (Euros Puw yn datgan buddiant)** |
| **2) Neuadd Maesywaen** | **£150** |
| **3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn** | **£150** |
| **4) Ysgol Bro Tryweryn** | **£150** |
| **5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn** | **£75** |
| **6) Eisteddfod Talybont** | **£150** |
| **7) Sioe Ardal Maesywaen** | **£50 (Rhys Jones yn datgan buddiant)** |
| **8) CFFI Meirionnydd** | **£100** |
| **9) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd** | **£25** |
| **10) Cantref** | **£25** |
| **11) Eisteddfod Talaith a Chadair Powys** | **£50** |
| **12) Ambiwlans Awyr Cymru** | **£50** |
| **13) Ty'r Eos** | **£50** |
| **14) Tŷ Gobaith** | **£25** |
| **15) Macmillan** | **£25** |

**<u>vii) Materion lleol.</u>**
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MAI 9FED YN NEUADD MAESYWAEN.**